

Trawsgrifiad o fideo ' Dewis gofal plant'

Carys Timperley-White: Nid yw dod o hyd i ofal plant bob amser yn hawdd. Fel arolygydd, dw i'n mynd allan i sicrhau bod y gwasanaethau'n ddiogel i'r plant.

Y pethau byddwn i'n awgrymu edrych amdanynt yw edrych ar ein gwefan i lawrlwytho'r arolygiad diweddaraf. Byddwn i'n edrych i weld a ydyn nhw wedi cofrestru gyda ni, [a] byddwn i'n dewis o'r rhestr ar y wefan. Gallwch chi chwilio wedyn am y gwasanaeth yr ydych chi [ei] moyn. Gallwch chi edrych yn ôl ardal neu awdurdod lleol, neu'r pellter oddi wrth eich tŷ chi.

Mae ein hadroddiadau ni'n nodi faint o blant sydd ym mhob gwasanaeth, felly gallwch chi ofyn a oes lle i'ch plant chi. Byddwn i hefyd yn awgrymu mynd i ymweld â'r gwasanaeth, a byddwn i'n mynd â chwestiynau sy'n berthnasol i'ch plant chi. Pan ydych chi'n ymweld â meithrinfa, crèche, neu glwb ar ôl yr ysgol, sicrhewch eu bod yn lân, yn groesawgar, a bod man chwarae awyr agored sy'n ddiogel. Byddwn i hefyd yn awgrymu gofyn faint o blant sydd yna, a faint o staff sydd yna i ofalu amdanynt. Byddwn i'n edrych i weld a yw'r plant yn brysur, a ydyn nhw'n hapus, ac a ydyn nhw'n teimlo'n gartrefol yna. Hefyd, byddwn i moyn gwybod am y polisiau o ran disgyblu'r plant, neu ymddygiad, a byddwn i hefyd yn gofyn am drefn y dydd, a beth sy'n digwydd trwy'r dydd i gyd.

Pan fyddwn i'n ymweld â gwarchodwyr plant, byddwn i'n awgrymu edrych i weld a yw'r tŷ yn lân. Edrych i weld a yw'r gwarchodwr plant yn groesawgar; a yw'n siarad gyda chi a chyda'ch plant chi; pa gymwysterau a phrofiad sydd gydag ef/hi; a yw'n gallu ymdopi gyda'ch plant chi; a yw'n darparu byrbrydau a bwyd – ydy'r pethau hyn yn iachus, neu oes rhaid i chi hala bwyd gyda'ch plant. A siarad â'r rhieni i weld a oes unrhyw beth gyda nhw i'w ddweud am y gwasanaeth.